Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun Gweithredu'r Rhaglen Endosgopi Genedlaethol 2019–2023

OGL © Hawlfraint y Goron 2019 WG39355 ISBN Digidol 978-1-83933-431-3

Cyflwyniad
Mae gwasanaethau endosgopi yn chwarae rhan hanfodol wrth ymchwilio i achosion lle mae amheuaeth o ganser a chanlyniadau sgrinio cadarnhaol, yn ogystal â darparu gofal dilynol i unigolion â diagnosau blaenorol a chyflawni triniaeth ymyriadol. Mae endosgopi yn chwarae rhan yr un mor bwysig mewn cyflyrau difrifol nad ydynt yn ganseraidd, megis clefyd llid y coluddyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pwysau sy'n wynebu gwasanaethau endosgopi yng Nghymru. Mae nifer y triniaethau endosgopi diagnostig sydd eu hangen yn cynyddu oherwydd newidiadau yn y boblogaeth, trothwy is ar gyfer ymchwilio i achosion lle mae amheuaeth o ganser, y galw am wyliadwriaeth a'r angen i ehangu'r rhaglen sgrinio coluddion. Ar hyn o bryd, mae'r galw yn llawer iawn mwy na'r capasiti craidd sydd ar gael ac mae byrddau iechyd wedi cael trafferth wrth geisio datblygu atebion cynaliadwy.

Y Rhaglen a Gyfarwyddir yn Genedlaethol
Yn dilyn cyngor gan y Grŵp Gweithredu ar Endosgopi (EIG) ac yng nghyd-destun Cymru Iachach, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ym mis Medi 2018 gynllun newydd a gyfarwyddir yn genedlaethol ar gyfer gwella gwasanaethau endosgopi. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cadeirio Bwrdd Rhaglen Endosgopi cenedlaethol, sy'n cynnwys uwch arweinwyr byrddau iechyd ac a gefnogir gan ddyraniad blynyddol o £1 miliwn. Bydd y Bwrdd yn cael ei danategu gan bedwar is-grŵp ffrydiau gwaith:

Y Cynllun Gweithredu
Mae'r cynllun gweithredu hwn, a ddatblygwyd i gefnogi'r dull cenedlaethol, a hefyd mewn ymateb i argymhellion y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ym mis Ebrill 2019, yn nodi cynllun gwella a gyflwynir yn raddol i gefnogi byrddau iechyd i ddatblygu gwasanaethau endosgopi cynaliadwy. Nid yw'r rhaglen genedlaethol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau'n uniongyrchol; mae'r bwrdd iechyd yn parhau'n gyfrifol am hyn. Mae cwmpas y rhaglen yn cynnwys pob endosgopi gastroberfeddol a gyflawnir neu a gomisiynir gan y GIG yng Nghymru. Bydd y Bwrdd yn canolbwyntio ei ymdrechion ar:

- Endosgopi gastroberfeddol uwch
- Endosgopi gastroberfeddol is
- Endosgopi capsiwl
- Enterosgopi
- Colangio-pancreatograffi ôl-redol endosgopig

Er bod gan y Bwrdd ran bwysig i'w chwarae wrth datblygu capasiti endosgopi digonol i optimeiddio rhaglen Sgrinio Canser y Coluddyn, nid yw o fewn cylch gorchwyl y Bwrdd i optimeiddio rhaglen Sgrinio Canser y Coluddyn. Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n parhau'n gyfrifol am optimeiddio rhaglen Sgrinio Canser y Coluddyn. Bydd cysylltiadau pwysig yn cael eu cynnal rhwng y ddwy raglen a bydd cyhoeddiad ar y cerrig milltir ar gyfer optimeiddio maes o law.

Nod y Rhaglen
Nod cyffredinol y rhaglen yw datblygu gwasanaethau endosgopi cynaliadwy. Nodwyd y camau angenrheidiol sy'n tanategu hyn mewn argymhellion gan y Grŵp Gweithredu ar Endosgopi (EIG) ac roeddent yn cynnwys:

1. Gwelliant mewn gwasanaethau endosgopi yn cael ei sbarduno'n gyflymach a chyda mwy o berchnogaeth gan y GIG.
2. Er mwyn pennu'r bwlch galw a chapasiti, mae angen i fyrddau iechyd gael dealltwriaeth well o'u hamcamestyniadau o gapasiti, cynhyrchiant a galw cyfredol, i gefnogi gwell cynllunio ar gyfer y gweithlu a'r gwasanaeth.
3. Byrddau iechyd i gytuno ar lwybr atgyfeirio safonedig ar gyfer atgyfeiriadau endosgopi.
4. Byrddau iechyd i ddatblygu cynllun gweithredu i'w gymeradwyo yn y byrddau gweithredol priodol ynghylch sut i fynd i'r afael â'r bwlch capasiti, gyda chyfeiriad penodol ym mhob Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP).
5. Byrddau iechyd i adolygu eu gweithlu endosgopi a sicrhau bod capasiti digonol wedi'i gynllunio, gyda chysylltiadau penodol â'u Cynlluniau Tymor Canolig Integredig (IMTP).
6. Byrddau iechyd i barhau i weithio tuag at gyflawni achrediad Grŵp Cynghori ar y Cyd ar Endosgopi Gastroberfeddol (JAG).

Mae'r cynllun gweithredu hwn yn nodi camau i'w gweithredu **ar unwaith** i sefydlu'r rhaglen, y mae rhai ohonynt yn gyflawn neu bron yn gyflawn. Mae'n nodi camau tymor canolig i gefnogi byrddau iechyd i **sefydlogi** eu gwasanaethau yn ogystal â'r camau dangosol tymor hirach i gefnogi byrddau iechyd i ddarparu gwasanaethau endosgopi **cynaliadwy**. Bydd y cynllun yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol.

Argymhellion Grŵp Gweithredu ar Endosgopi (EIG)	**Cyfnod Cychwynnol** (Erbyn 31-12-19)	**Cyfnod Sefydlogi** (Erbyn 31-03-21)	**Cyfnod Cynaliadwy** (Erbyn 31-03-23)	**Argymhellion Cysylltiedig â'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**	**Eglurhad**
Cerrig milltir lefel uchel.	Sefydlu rhaglen a llywodraethu. Ffrydiau gwaith ar waith. Cyhoeddi cynllun gweithredu. Dyrannu adnoddau. Ymgysylltiad byrddau iechyd trwy'r Bwrdd a IMTP.	Erbyn mis Ebrill 2020, y byrddau iechyd i gytuno ar gynlluniau lleol i sicrhau mwy o weithgarwch, gwella seilwaith, recriwtio a hyfforddiant. O leiaf 50% o unedau wedi'u hachredu'n llawn gan JAG. Toriadau endosgopi arferol, brys a gwyliadwriaeth mewn cydbwysedd ac yn lleihau ym mhob uned. Capasiti digonol wedi'i ddarparu i optimeiddio amrediad oedran y rhaglen sgrinio coluddion.	Pob uned wedi'i hachredu'n llawn gan JAG. Achrediad JAG wedi'i gynnal. Toriadau endosgopi arferol, brys a gwyliadwriaeth yn cael eu dileu. Darpariaeth o gapasiti digonol i optimeiddio trothwy prawf y rhaglen sgrinio coluddion.	"Erbyn mis Hydref 2019, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Rhaglen Gwella Endosgopi Genedlaethol i greu a chyhoeddi cynllun gweithredu endosgopi a fydd yn mynd i'r afael â'r galw cyfredol a galw'r dyfodol am wasanaethau gydag amserlenni clir a thargedau ar gyfer gwella, i'w oruchwylio gan Fwrdd y Rhaglen Endosgopi Genedlaethol, a bydd rhaid iddo gynnwys manylion ynghylch sut a pha bryd yr ymdrinnir â phob un o'r materion a ganlyn a/neu sut a pha bryd y gellir eu symud ymlaen yn gyflym."	Mae metrigau'r rhaglen yn parhau i gael eu datblygu ond mae'r cerrig milltir hyn yn hanfodol i'r rhaglen. Mae rhai unedau'n dibynnu ar strategaethau ystadau ehangach byrddau iechyd i gyflawni elfennau amgylcheddol achredu.
Darparu'r rhaglen					
Argymhelliad 1 Gwelliant mewn gwasanaethau endosgopi yn cael ei sbarduno'n gyflymach a chyda	Cynnal gweithdy cwmpasu rhaglenni. Sefydlu tîm y rhaglen.	Y Bwrdd i ddarparu cyfarwyddyd cenedlaethol i arweinwyr lleol.	Pennu model arweinyddiaeth yn y dyfodol a'i weithredu. Tîm y rhaglen i bontio i dîm cymorth rhwydwaith.	"Wrth wneud yr argymhelliad hwn, hoffai'r Pwyllgor gael sicrwydd y bydd digon o gyfranogiad clinigol uwch ar lefel bwrdd iechyd ac ar lefel Gweinidogion. Rhaid i	Mae allbynnau ffrydiau gwaith yn ddarostyngedig i gynlluniau'r ffrydiau gwaith sy'n cael eu datblygu.

Argymhellion Grŵp Gweithredu ar Endosgopi (EIG)	**Cyfnod Cychwynnol** (Erbyn 31-12-19)	**Cyfnod Sefydlogi** (Erbyn 31-03-21)	**Cyfnod Cynaliadwy** (Erbyn 31-03-23)	**Argymhellion Cysylltiedig â'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**	**Eglurhad**
mwy o berchnogaeth gan y GIG..	Sefydlu Bwrdd arweinyddiaeth genedlaethol. Cytuno Cylch Gorchwyl. Sefydlu ffrydiau gwaith a chynlluniau. Penodi arweinwyr clinigol. Dyrannu adnodd i'r rhaglen. Datblygu cynllun gweithredu. Datblygu metrigau'r rhaglen.	Cwmpas, cynnydd a bwlch galw/capasiti i'w adolygu. Ffrydiau gwaith i ddarparu allbynnau a buddion cynaliadwy. Tîm y rhaglen i gefnogi byrddau iechyd i ymgorffori allbynnau. Adnodd blynyddol i'w ddefnyddio i gefnogi rhaglen a rhoi cyfrif amdani. Metrigau i gael eu monitro a chymryd camau cyfarwyddo angenrheidiol. Ystyried cyfeiriad y rhaglen yn y dyfodol.	Byrddau Iechyd i ymgorffori allbynnau. Dyraniad blynyddol i'w ddefnyddio i gefnogi'r rhaglen a rhoi cyfrif amdano. Adroddiad diwedd rhaglen i'w gyhoeddi yn erbyn argymhellion gwreiddiol a metrigau'r rhaglen.	Fwrdd y Rhaglen Endosgopi Genedlaethol fod yn atebol i'r Gweinidog i sicrhau bod y cynllun gweithredu endosgopi cenedlaethol yn cael ei weithredu a'i ddarparu'n gyflym." "Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i'r cynllun gweithredu endosgopi cenedlaethol gael ei gyhoeddi cyn pen chwe mis, a fydd yn mynd i'r afael â'r materiona nodir uchod. Bydd y Pwyllgor yn olrhain cynnydd wrth weithredu'r cynllun gweithredu ddeuddeng mis ar ôl ei gyhoeddi i sicrhau y bu gwelliant mesuradwy yng nghanlyniadau'r cleifion."	

Argymhellion Grŵp Gweithredu ar Endosgopi (EIG)	**Cyfnod Cychwynnol** (Erbyn 31-12-19)	**Cyfnod Sefydlogi** (Erbyn 31-03-21)	**Cyfnod Cynaliadwy** (Erbyn 31-03-23)	**Argymhellion Cysylltiedig â'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**	**Eglurhad**
Ffrwd waith 1: Cynllunio Galw a Chapasiti					
Argymhelliad 2 Er mwyn pennu'r bwlch galw a chapasiti, mae angen i fyrddau iechyd gael dealltwriaeth well o'u hamcamestyniadau o gapasiti, cynhyrchiant a galw cyfredol, i gefnogi gwell cynllunio ar gyfer y gweithlu a'r gwasanaeth. Argymhelliad 4 Byrddau iechyd i ddatblygu cynllun gweithredu i'w gymeradwyo yn y byrddau gweithredol priodol ynghylch sut i fynd i'r afael â'r bwlch capasiti, gyda chyfeiriad penodol ym mhob IMTP. Argymhelliad 6	Datblygu set ddata isafswm a diffiniadau a gytunwyd. Cwmpas a chynllunio allbynnau ffrwd gwaith. Cynnal, mireinio a chytuno ar linell sylfaen galw a chapasiti y bwrdd iechyd. Datblygu a gweithredu dull cyffredin o fodelu galw lleol a chapasiti. Datblygu a gweithredu dull safonedig o wella'r defnydd o adnoddau Datblygu pecynnau offer rheoli a pherfformiad. Cytuno ar ddull cyffredin i reoli rhestrau gwyliadwriaeth.	Mireinio ac adrodd rheolaidd ar alw'r bwrdd iechyd a gwell capasiti yn erbyn y llinell sylfaen. Camau uniongyrchol i fynd i'r afael â chydbwysedd galw a chapasiti. Darparu allbynnau ffrydiau gwaith i fyrddau iechyd i fynd i'r afael â'r bwlch capasiti. Datblygu, adolygu a gweithredu cynlluniau gweithredu blynyddol byrddau iechyd; cysylltiedig â IMTP. Bwrdd iechyd yn gweithredu mesurau cynhyrchiant ar lefel unedau. Bwrdd iechyd yn lleihau ôl-groniadau gwyliadwriaeth.	Mireinio ac adrodd rheolaidd ar alw'r bwrdd iechyd a gwell capasiti yn erbyn y llinell sylfaen. Camau uniongyrchol i fynd i'r afael â chydbwysedd galw a chapasiti. Byrddau iechyd yn mabwysiadu allbynnau ffrydiau gwaith yn llawn i fynd i'r afael â'r bwlch capasiti. Datblygu, adolygu a gweithredu cynlluniau gweithredu blynyddol byrddau iechyd; cysylltiedig â IMTP. Bwrdd iechyd yn gweithredu mesurau cynhyrchiant ar lefel unedau. Rhestrau bwrdd iechyd mewn cydbwysedd â'i gilydd.	"Dull cenedlaethol o gynllunio gwasanaethau i sicrhau bod gwasanaethau endosgopi yng Nghymru mewn sefyllfa ymdopi â'r cynnydd a ragwelir mewn atgyfeiriadau o raglen Sgrinio Coluddion Cymru, gan gynnwys modelau newydd o ofal i gynyddu nifer yr endosgopyddion yng Nghymru." "Dull mwy cynaliadwy o gyflawni targedau rhestrau amseroedd aros, o ystyried natur tymor byr a chostau caffael mewnol ac allanol." "Mynd i'r afael â materion capasiti cyfredol a rhoi sicrwydd y bydd byrddau iechyd yn darparu uchafswm amser aros ar gyfer profion diagnostig." "Cefnogaeth i fyrddau iechyd weithio tuag at achrediad JAG, gan ddisgwyl y bydd pob uned	Bydd y rhaglen genedlaethol yn cefnogi byrddau iechyd i ddeall eu galw a'u capasiti mewn dull cyffredin; yn ogystal â defnyddio hyn i ddatblygu cynlluniau gweithredu endosgopi lleol sy'n gysylltiedig â'u bwriad strategol a nodir yn eu IMTP perthnasol. Y ffrwd waith hon fydd y prif ddull arweiniol ar gyfer cyflawni'r elfen amseroldeb achredu unedau a rheoli risg glinigol ar draws y llwybrau. Er ei fod yn cael eu hysbysu gan glinigwyr, mae ei ffocws ar wella cynllunio a rheoli gwasanaeth.

Argymhellion Grŵp Gweithredu ar Endosgopi (EIG)	**Cyfnod Cychwynnol** (Erbyn 31-12-19)	**Cyfnod Sefydlogi** (Erbyn 31-03-21)	**Cyfnod Cynaliadwy** (Erbyn 31-03-23)	**Argymhellion Cysylltiedig â'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**	**Eglurhad**
Byrddau iechyd i barhau i weithio tuag at gyflawni achrediad JAG.	Datblygu strwythurau adrodd gweithredol a strategol.			endosgopi yng Nghymru'n anelu at gyflawni achrediad yn y dyfodol, gan sicrhau bod gwasanaethau endosgopi'n cael eu darparu'n unol â'r arferion clinigol gorau". "Camau ar unwaith i adolygu sut mae cleifion risg uchel yn cael eu rheoli, gyda dull cynaliadwy cenedlaethol o reoli'r rhai sydd angen triniaethau gwyliadwriaeth endosgopig parhaus yn cael ei ddatblygu."	
Ffrwd waith 2: Llwybrau Clinigol					
Argymhelliad 3 Byrddau iechyd i gytuno ar lwybr atgyfeirio safonedig ar gyfer atgyfeiriadau endosgopi.	Mapio llwybrau atgyfeirio cyfredol. Mapio llwybrau atgyfeirio cyfredol ar gyfer atgyfeiriadau brys, arferol ac argyfwng. Datblygu peilot gwell o'r Prawf Imiwnocemegol Ysgarthol (FIT) ar	Cytuno ar lwybrau sydd wedi'u hoptimeiddio'n genedlaethol ar gyfer atgyfeiriadau arferol, brys ac argyfwng. Gweithredu llwybrau wedi'u hoptimeiddio'n genedlaethol. Gweithredu prosiect peilot i adeiladu'r	Cwblhau'r gwaith o weithredu llwybrau wedi'u hoptimeiddio. Cytuno a gweithredu dull cyffredin ar gyfer y Prawf Imiwnocemegol Ysgarthol (FIT) symptomatig. Rhoi modelau gwasanaeth gwahanol	"Penderfyniad ynghylch sut a pha bryd y dylid cyflwyno'r Prawf Imiwnocemegol Ysgarthol (FIT) i ofal sylfaenol."	Bydd gan optimeiddio'r llwybrau gysylltiadau pwysig â'r ffrydiau gwaith eraill.

Argymhellion Grŵp Gweithredu ar Endosgopi (EIG)	**Cyfnod Cychwynnol** (Erbyn 31-12-19)	**Cyfnod Sefydlogi** (Erbyn 31-03-21)	**Cyfnod Cynaliadwy** (Erbyn 31-03-23)	**Argymhellion Cysylltiedig â'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**	**Eglurhad**
	gyfer y gwasanaeth symptomatig. Gweithredu Canllawiau Gwyliadwriaeth newydd Cymdeithas Gastroenteroleg Prydain (BSG).	sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Prawf Imiwnocemegol Ysgarthol symptomatig. Cwmpas darparu gwasanaethau arbenigol yn ymwneud â endosgopi gastroberfeddol yng Nghymru a disgrifio'r heriau. Asesu effaith canllawiau gwyliadwriaeth newydd Cymdeithas Gastroenteroleg Prydain.	ar waith ar gyfer gwasanaethau endosgopi arbenigol.		
Ffrwd waith 3: Hyfforddi a Datblygu'r Gweithlu					
Argymhelliad 5 Byrddau iechyd i adolygu eu gweithlu endosgopi a sicrhau bod capasiti digonol wedi'i gynllunio, gyda chysylltiadau penodol â'u IMTP.	Mapio proffiliau staffio lleol. Sefydlu anghenion staffio yn y dyfodol ar sail y galw. Cwmpasu'r gofyniad i hyfforddi pob grŵp o staff.	Datblygu a darparu rhaglen uwchsgilio therapiwtig er mwyn achredu Colonosgopyddion Sgrinio ychwanegol. Sefydlu proffil staffio uned safonol.	Cynllun gweithlu cenedlaethol wedi'i weithredu ar gyfer endosgopi. Camau gweithredu gweithlu lleol wedi'u gweithredu fel rhan o gynllun endosgopi lleol.	"Opsiynau ar gyfer rhaglen hyfforddi garlam anfeddygol i ehangu'r gweithlu endosgopi i ateb y galw gan gynnwys ystyried academi endosgopi a sut y bydd anghenion gwahanol gweithlu cymysg yn cael eu diwallu."	

Argymhellion Grŵp Gweithredu ar Endosgopi (EIG)	**Cyfnod Cychwynnol** (Erbyn 31-12-19)	**Cyfnod Sefydlogi** (Erbyn 31-03-21)	**Cyfnod Cynaliadwy** (Erbyn 31-03-23)	**Argymhellion Cysylltiedig â'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**	**Eglurhad**
	Cyhoeddi cynllun ar gyfer datblygu rhaglen hyfforddi endosgopi genedlaethol i gefnogi'r gweithlu endosgopi. Dechrau datblygu rhaglen hyfforddi genedlaethol gydgysylltiedig ar gyfer yr endosgopyddion clinigol. Cwmpasu rhaglen hyfforddi genedlaethol i uwchsglio endosgopyddion presennol i ymgymryd â sgrinio. Dechrau recriwtio i Raglen Hyfforddi Endosgopyddion Clinigol Genedlaethol.	Sefydlu'r seilwaith hyfforddi i ddarparu'r elfennau hyfforddi canolog y Rhaglen Hyfforddi Endosgopi Genedlaethol. Sefydlu'r gyfadran hyfforddi i gefnogi darpariaeth y Rhaglen Hyfforddi Endosgopi Genedlaethol. Datblygu rhaglen hyfforddi endosgopi gynaliadwy ar gyfer pob grŵp o staff. Datblygu a dechrau gweithredu cynllun gweithlu cenedlaethol ar gyfer endosgopi. Datblygu a darparu cyfarwyddyd ar gynllunio swyddi ar gyfer staff meddygol. Datblygu a dechrau gweithredu camau gweithredu gweithlu lleol i recriwtio, hyfforddi a chadw, fel rhan o'r cynllun endosgopi lleol.	Recriwtio a hyfforddi staff ychwanegol i gynnal capasiti. Adolygu disgrifiadau swyddi a chynyddu darpariaeth endosgopi ymhlith mabwysiadwyr hwyr. Hyfforddiant llawn a phenodi dwy garfan ychwanegol o endosgopyddion, os bydd angen. Gweithredu rhaglen hyfforddi sgrinio i garfannau pellach yn unol â chynlluniau galw a chapasiti. Sefydlu cyllid i gefnogi a chynnal y Rhaglen Hyfforddi Endoscopi Genedlaethol.		

Argymhellion Grŵp Gweithredu ar Endosgopi (EIG)	**Cyfnod Cychwynnol** (Erbyn 31-12-19)	**Cyfnod Sefydlogi** (Erbyn 31-03-21)	**Cyfnod Cynaliadwy** (Erbyn 31-03-23)	**Argymhellion Cysylltiedig â'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**	**Eglurhad**
		Recriwtio a hyfforddi staff ychwanegol i sefydlogi capasiti. Adolygu disgrifiadau swyddi a chynyddu'r ddarpariaeth endosgopi ymhlith mabwysiadwyr cynnar. Cwblhau hyfforddiant a phenodiad dwy garfan o endosgopyddion clinigol. Adolygu sut i fynd i'r afael â gwahaniaethau mewn cyflog ar gyfer endosgopyddion clinigol. Gweithredu rhaglen hyfforddi sgrinio yn lleol i'r garfan gychwynnol er mwyn achredu colonosgopyddion sgrinio ychwanegol.			

Argymhellion Grŵp Gweithredu ar Endosgopi (EIG)	**Cyfnod Cychwynnol** (Erbyn 31-12-19)	**Cyfnod Sefydlogi** (Erbyn 31-03-21)	**Cyfnod Cynaliadwy** (Erbyn 31-03-23)	**Argymhellion Cysylltiedig â'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**	**Eglurhad**
		Datblygu llwybr addysg ar gyfer staff nyrsio, gweinyddol a rheoli sy'n gweithio yn y gwasanaethau endosgopi yng Nghymru.			
Ffrwd waith 4: Seilwaith a chyfleusterau					
Argymhelliad 6 Byrddau iechyd i barhau i weithio tuag at gyflawni achrediad JAG.	Comisiynu ymweliadau cyn-asesu JAG. Cynnal gweithdai achredu a chynhyrchiant. Coladu darganfyddiadau adroddiad cyn-asesu i hysbysu'r rhaglen gyfalaf genedlaethol. Nodi safleoedd cynnar ar gyfer achredu ac unedau â thrafferthion amgylcheddol sylweddol ynghyd â chamau unioni angenrheidiol i gyflawni achrediad.	Cytuno a darparu buddsoddiad cyfalaf cenedlaethol a lleol mewn unedau. Comisiynu asesiadau JAG. Cyflwyno pecynnau gwybodeg gyffredin i fabwysiadwyr cynnar ar gyfer atgyfeirio, cofnodi canlyniadau cleifion ar Borth Clinigol Cymru a llwytho data i'r Gronfa Ddata Endosgopi Genedlaethol. Cwblhau'r broses achredu ar gyfer yr	Cytuno a darparu buddsoddiad cyfalaf cenedlaethol a lleol mewn unedau. Comisiynu asesiadau JAG. Cyflwyno pecynnau gwybodeg gyffredin i fabwysiadwyr cynnar ar gyfer atgyfeirio, cofnodi canlyniadau cleifion ar Borth Clinigol Cymru a llwytho data i'r Gronfa Ddata Endosgopi Genedlaethol. Cwblhau'r broses achredu ar gyfer yr	"Cefnogaeth i fyrddau iechyd i weithio tuag at achrediad JAG, gan ddisgwyl y bydd pob uned endosgopi yng Nghymru'n anelu at gyflawni achrediad yn y dyfodol, a sicrhau bod gwasanaethau endosgopi'n cael eu darparu'n unol â'r arferion clinigol gorau."	

Argymhellion Grŵp Gweithredu ar Endosgopi (EIG)	Cyfnod Cychwynnol (Erbyn 31-12-19)	Cyfnod Sefydlogi (Erbyn 31-03-21)	Cyfnod Cynaliadwy (Erbyn 31-03-23)	Argymhellion Cysylltiedig â'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon	Eglurhad
	Asesu rhwystrau posibl i gynnal achrediad mewn unedau achrededig ar hyn o bryd. Comisiynu cynlluniau achredu; yn gysylltiedig â IMTP. Nodi heriau ac atebion gwybodeg. Mapio'r ystad ffisegol gyfredol. Asesu seilwaith cyfredol gwybodeg a chwmpasu gwelliannau posibl.	unedau hynny sy'n barod. Cymryd camau unioni ar gyfer unedau na chyflawnodd achrediad.	unedau hynny sy'n barod. Cymryd camau unioni ar gyfer unedau na chyflawnodd achrediad.		

Ymdrinnir ag Argymhellion canlynol y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon trwy optimeiddio'r rhaglen sgrinio canser y coluddyn dan arweiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru; sefydlir cysylltiadau ac adroddiadau priodol rhwng y ddrwy raglen:

- "Rhaglen ar yr amserlen i gynyddu sensitifrwydd y Prawf Imiwnocemegol Ysgarthol a phrofion oedran gyda cherrig milltir ar gyfer optimeiddio'r rhaglen fel nad yw Cymru'n disgyn ymhellach y tu ôl i'w chymheiriaid yn y DU."
- "Targed mwy uchelgeisiol na'r 60% cyfredol o'r holl gyfranogwyr cymwys sy'n dewis cymryd rhan yn rhaglen sgrinio canser y coluddyn, gan gynnwys manylion ynghylch sut a pha bryd y bydd y targed hwn yn cael ei adolygu a'i gyflawni, ac ymdrechion i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, yn arbennig i gynyddu nifer y dynion sy'n cymryd yn y rhaglen rhan mewn ardaloedd difreintiedig."
- "Adeiladu ar yr ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus "Be Clear on Cancer" i helpu i gynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan trwy godi ymwybyddiaeth o'r newidiadau i raglen sgrinio'r coluddyn."